



At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad: 10 Chwefror 2025

Deialu 01824 712568
Union:

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR
ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD GWENER, 14 CHWEFROR 2025**
yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir

Gary Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

MYFYRDOD TAWEL

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 15 Hyref 2024 (copi wedi'i gynnwys).

5 CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG, SAFBWyNT UWCHRADD - SARAH GRIFFITHS (PENNAETH CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG, YSGOL DINAS BRÂN) (Tudalennau 15 - 16)

Derbyn cyflwyniad ar y ddarpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Dinas Brân.

6 CYFLEOEDD CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG AC ADDYSG GREFYDDOL GORFODOL I FLYNYDDOEDD 10 AC 11 (Tudalennau 17 - 46)

Derbyn cyflwyniad ynghylch y cyfleoedd i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol orfodol i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

7 POLISIÄU ENGHREIFFTIOL AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG AC ADDOLI AR Y CYD (Tudalennau 47 - 56)

Ystyried a chymeradwyo Polisiäau Enghreifftiol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addoli ar y Cyd (copïau ynghlwm) y gall ysgolion Sir Ddinbych eu mabwysiadu.

8 CCYSAGC (Tudalennau 57 - 64)

- Derbyn cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2024.
- Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC ar 6 Mawrth 2025.
- Gwylïo fideo CCYSAGC a grëwyd i feithrin dealltwriaeth o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg
<https://www.youtube.com/watch?v=mdFxWoCvqzo>
- Derbyn gwybodaeth ynglÿn â Phrosiect Llais Athrawon CCYSAGC (copï ynghlwm).

9 DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

- Haf 2025 – 10am, 4 Mehefin 2025
- Hydref 2025 – 10am, 2 Hydref 2025

AELODAETH

Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Ellie Chard
Ann Davies
James May
Merfyn Parry

Huw Williams
Emrys Wynne
Will Price

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Suzy Sturley
Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones

Y Parch. Martin Evans-Jones
Jennie Downes
Colette Owen

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Susan Williams
Leah Crimes

Sarah Griffiths

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn

COPIAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 15 Hydref 2024, am 10.00am.

YN BRESENNOL

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Ann Davies, Delyth Jones ac Emrys Wynne

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Colette Owen

Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Leah Crimes

HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL), Prif Reolwr Addysg (JB) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweinyddwr Zoom])

MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrddod tawel.

1 YMDDIHEURIADAU

Jennie Downes, Sarah Griffiths, Dominic Oakes a Susan Williams

Byddai'r Cynghorydd Emrys Wynne ychydig yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol â busnes y cyfarfod, gan ei bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Christchurch.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Materion yn Codi – Tudalen 10: Eitem 6, RE Hubs – Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'n darparu mwy o wybodaeth am y mater hwn ar ddiwedd y cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2024 fel cofnod cywir.

5 NEWYDDLLEN YR HAF SIR DDINBYCH 2024

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol drydydd argraffiad cyhoeddus o Newyddlen yr Haf Sir Ddinbych a Chonwy 2024, REach (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn cefnogi gwaith Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Sir Ddinbych a Chonwy.

Arweiniwyd yr aelodau drwy'r newyddlen, a oedd yn cynnwys yr erthyglau canlynol –

- Yr hyn sy'n newydd ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), gan gyfeirio at y gyfres o fodiwlau Dysgu Proffesiynol ar CGM yn y cwricwlwm newydd sydd wedi eu dylunio i ddatblygu dealltwriaeth a chefnogi athrawon
- Yr Hawl i Dynnu yn Ôl – nid oedd hawl i dynnu disgybl allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond yr oedd rhieni sydd â phlant sydd yn cael yr Addysg Grefyddol bresennol (e.e. blynyddoedd 10 ac 11 ym mis Medi 2024) yn parhau i fod â'r hawl i dynnu eu plentyn o wersi AG
- Adnoddau Hyfforddi Cenedlaethol a Rhanbarthol – darparwyd dolenni i gael mynediad at sesiynau cenedlaethol yn canolbwyntio ar gynnydd yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a deunyddiau hyfforddi GwE
- y gefnogaeth a ddarperir gan CCYSAGC i aelodau Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, sy'n cynnwys Eiriolaeth a Chynrychiolaeth; Cyngor a Chefnogaeth; Rhwydweithiau; Perthnasoedd a Phartneriaethau; Lleisiau Awdurdodol; Adnoddau Dibynadwy a Gwybod Beth yw'r Diweddaraf
- yr oedd Cynhadledd CCYSAGC 2024 yn cynnwys prif sesiynau y gellid cael mynediad atynt drwy wefan CCYSAGC ynghyd â seminarau ar-lein cyn y gynhadledd.

Tynnodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol sylw at waith CCYSAGC fel corff cenedlaethol a chamau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i greu taflen i hybu gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'i waith CYSAG. Cadarnhaodd yr aelodau y byddent yn hoffi i Sir Ddinbych ddefnyddio dull tebyg o weithredu er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ysgolion o rôl CYSAG. Parthed erthyglau ar gyfer y newyddlen, bu rhywfaint o drafodaeth am y ffordd orau o annog ysgolion i gyfrannu, a chytunodd yr aelodau i godi'r mater yn yr ysgolion yr oeddynt yn gysylltiedig â hwy. Dywedodd Leah Crimes y byddai ei hysgol hi'n hoffi cyfrannu, a byddai hefyd yn codi'r mater yng nghyfarfod nesaf y clwstwr ysgolion. Cadarnhaodd Prif Reolwr Addysg y gellid gwneud cais am erthyglau yn y cyfarfodydd wythnosol gyda Phenaeithiaid. Gofynnodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am geisio safbwyntiau hefyd ynglŷn â'r hyn fyddai athrawon yn hoffi ei weld mewn newyddlenni yn y dyfodol. Yr oedd yr aelodau'n fodlon gyda'r dull a'r camau rhagweithiol i hyrwyddo gwaith CYSAG.

PENDERFYNWYD derbyn Newyddlen yr Haf Sir Ddinbych 2024.

6 CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESG, SAFBWyNT UWCHRADD - SARAH GRIFFITHS (PENNAETH CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESG, YSGOL DINAS BRÂN)

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ymddiheuriadau gan Sarah Griffiths, Pennaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moesg yn Ysgol Dinas Brân, a oedd yn methu bod yn bresennol i draddodi'r cyflwyniad. Dymunwyd gwellhad buan i Sarah gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD bod y cyflwyniad yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf CYSAG.

7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM AROLYGON ESTYN

Eglurodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod canllawiau arolygon Estyn o fis Medi 2024 i 2030 wedi eu cyhoeddi yn ystod yr haf, a rhoddoddyd wybod i'r aelodau am y newidiadau i'r fframwaith arolygu.

Gellid cael mynediad at y dogfennau sy'n egluro'r hyn y mae Estyn yn ei arolygu, a sut, ar wefan Estyn. Darparwyd y dolenni canlynol –

Cymraeg – [Sut rydym yn arolygu Ysgolion a gynhelir ac UC Dau 0.pdf \(gov.wales\)](#)
Saesneg – [How We Inspect – 2024 maintained schools and PRUs \(gov.wales\)](#)

Cymraeg – [Beth rydym yn ei arolygu – Ysgolion a gynhelir ac UC Dau \(gov.wales\)](#)
Saesneg – [What We Inspect – 2024 Maintained Schools and PRUs \(gov.wales\)](#)

Llywodraethid arolygon gan Ddeddf Addysg 2005, ac yr oedd Adran 28 yn nodi nifer o feysydd y mae'n rhaid i arolygwyr adrodd amdanynt, a oedd yn cynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion (YMCD). Yr oedd gan rai ysgolion gymeriad crefyddol ac yn addysgu AG enwadol, ac yn yr ysgolion hynny yr oedd AG enwadol a chynnwys yr addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân dan Adran 50 Deddf Addysg 2005, ac nid oeddynt yn cael eu cynnwys yn arolygiadau Adran 28. Yr oedd yr Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd yn datblygu ei fframwaith, nad oedd eto wedi ei roi ar waith mewn ysgolion. Dywedodd Colette Owen fod y fframwaith Catholig wedi bod yn weithredol ers tua deuddeg mis a'i fod yn cael ei addasu wrth i bethau newid ac er mwyn cyd-fynd yn well ag arolygiadau Estyn, gan gofio bod y fframwaith yn berthnasol i Gymru ac i Loegr. Yr oedd yna bellach raglen dreigl o arolygiadau Adran 50 yn debyg i Estyn, lle cynt, os oedd ysgol yn cael arolygiad gan Estyn, byddai'n awtomatig yn creu arolygiad Adran 50.

Trafodwyd y prif newidiadau i fframwaith arolygu Estyn fel a ganlyn –

- ni fyddai unrhyw batrwm o ran pryd y byddai ysgolion yn cael eu harolygu, o gymharu â'r cylch chwe blynedd blaenorol. Yn dilyn prif arolygiad cyflwynwyd arolygiad interim i adrodd ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r argymhellion o'r prif arolygiad ar waith. Yr oedd y cyfnod o dair wythnos o rybudd cyn arolygiadau hefyd wedi ei gwtogi i bythefnos

- yn hanesyddol yr oedd arolygiadau'n cynnwys arsylwi'r ysgol / gwersi ac yr oedd yna newid mewn ffocws i fwy o ymgysylltu â disgyblion a dull a oedd yn canolbwyntio ar y disgyblion
- yr oedd yr adroddiadau ar hyn o bryd yn anodd eu dehongli o safbwynt YMCD, AG ac addoli ar y cyd, gydag adroddiadau blaenorol yn canolbwyntio'n bennaf ar faes arolygu lles, gofal, cefnogaeth ac arweiniad. Fodd bynnag, mwya'n y byd o adroddiadau a gyhoeddid, yr hawsaf a fyddai i gael yr wybodaeth angenrheidiol. Fel sydd mewn canllawiau arolygu blaenorol, ni fyddai sylwadau am yr ysgolion hynny sy'n bodloni gofynion AG neu CGM yn cael eu cynnwys, a byddai cyfeiriad yn cael ei wneud dim ond pan na fyddai'r gofynion statudol hynny'n cael eu bodloni / ar gyfer meysydd i'w datblygu neu pan fo meysydd penodol o arferion da
- byddai'r tri maes arolygu'n canolbwyntio ar (1) addysgu a dysgu; (2) lles, gofal, cefnogaeth ac arweiniad, ac (3) arwain a gwella, a byddai'r adroddiadau yn naratif o brofiad yr arolygwyr yn yr ysgol. Anogwyd yr aelodau i edrych ar wefan Estyn a'r adroddiadau arolygu newydd wrth iddynt ymddangos, gan eu bod yn wahanol iawn i adroddiadau blaenorol
- yr oedd timau arolygu'n cynnwys arolygwyr arweiniol ynghyd ag ymarferydd sy'n cymryd rhan fel arolygydd cymheiriaid. Gallent fod yn bennaethiaid neu'n uwch arweinwyr ysgol sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

Nododd y Cadeirydd na wneid unrhyw sylwadau yn yr adroddiad os yw'r meysydd arolygu fel y disgwylir iddynt fod, a dim ond meysydd i'w datblygu neu arferion da fyddai'n cael eu rhannu. Croesawodd y defnydd o arolygwyr cymheiriaid ac yr oedd yn falch bod arweinwyr ysgol fel Leah Crimes yn ymwneud â'r broses. Rhoddodd Ms Crimes adroddiad o'i phrofiad ei hun mewn perthynas â hynny, a chanmolodd yr hyfforddiant a'r cyfle datblygu proffesiynol. Fel cyn-bennaeth, cyfeiriodd y Cynghorydd Delyth Jones hefyd at ei phrofiad yn y gorffennol o arolygiadau Estyn a'r buddion o ran hyfforddiant a chael dealltwriaeth o'r broses a'r cyfle i ymweld ag ysgolion eraill i rannu arferion gorau a meincnodi a mesur eich ysgol eich hun.

Yr oedd yr aelodau hefyd yn falch o nodi'r dull sy'n canolbwyntio ar y disgybl a symudiad Estyn i fod yn fwy dymunol a chymryd rhan ym mhroses wella'r ysgol, yn hytrach na bod yn wiriwr allanol o welliant ysgol yn unig. Teimlai Leah Crimes fod y dull hwnnw wedi ei gadarnhau mewn arolygiad diweddar yn ei hysgol, ac yr oedd yn ymwybodol o gydweithwyr eraill yn Sir Ddinbych a Chonwy a oedd wedi cael profiadau tebyg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am egluro'r newidiadau i'r fframwaith arolygu yn dilyn cyhoeddi canllawiau arolygu Estyn.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar lafar gan yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar y newidiadau i'r fframwaith arolygu.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2023-24

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer CYSAG Sir Ddinbych 2023-24 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'w gymeradwyo. Yr oedd yr adroddiad yn cydnabod a chofnodi gwaith y CYSAG am y flwyddyn o fis Medi 2023 tan fis Gorffennaf 2024.

Atgoffwyd yr aelodau bod yr adroddiad blynyddol yn ddogfen hanesyddol a gofynnwyd i'r aelodau ei chymeradwyo, yn amodol ar unrhyw bwyntiau yn ymwneud â chywirdeb. I wneud yr adroddiad yn fwy defnyddiol i ysgolion, cynhwyswyd nifer o ddolenni i adnoddau a chefnogaeth, ac yr oedd yna adran fawr ar AG / CGM a'r Maes Llafur Cytunedig.

Arweiniodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau drwy'r adroddiad, gan ymhelaethu ar feysydd penodol mewn manylder, a darparodd drosolwg o'r cynnwys a oedd yn ymdrin â'r canlynol –

- yr oedd rôl CYSAG wedi ei chynnwys yn y rhagymadrodd, a fyddai'n cael ei ddiwygio i gyfeirio at y CYSAG i adlewyrchu'r ddau gorff yn rhedeg yn gyfochrog a'i ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad at CGM
- penderfynwyd ar benawdau'r cynnwys beth amser yn ôl gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac yr oedd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru wedi cynnal adolygiad o adroddiadau blynyddol a gwneud rhai argymhellion i LIC – ni wyddys y canlyniad eto
- yr oedd cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol yn cynnwys cyfeiriad at y Maes Llafur Cytunedig newydd ar gyfer CGM (Cwricwlwm i Gymru, 2022) a'r Maes Llafur Cytunedig blaenorol ar gyfer AG (Cwricwlwm 2008) sy'n berthnasol i ysgolion uwchradd
- nid oedd adroddiadau arholiadau'n cael eu rhyddhau mwyach, ac nid oedd aelodau'n gallu trafod data cymharol; darparwyd dolenni i amryw adroddiadau Estyn
- Dysgu ac Addysgu – darparwyd cyfoeth o ddeunydd cyfeiriol a dolenni o ystod o adnoddau ac ymhelaethwyd ymhellach arnynt yn y cyfarfod; yr oedd Marc Ansawdd AG wedi ei amlygu. Parthed y rhestrau chwarae ar Hwb, byddai Rhestr Chwarae Llywodraethwyr yn cael ei rhyddhau'n fuan, a rhoddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad am ei waith ei hun gyda Phrifysgol Bangor drwy GwE yn hyfforddi myfyrwyr TAR / PCSE a gweithio'n agos gyda Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru
- Addoli ar y Cyd – amlygwyd yr anhawster wrth fonitro darpariaeth drwy adroddiadau Estyn yn dilyn canllawiau arolygu diweddaedig, heb unrhyw ddisgwyliad i adrodd pa un a oedd ysgol yn bodloni'r ddyletswydd statudol ai peidio, ac absenoldeb cyffredinol sylwadau YMCD; darparwyd hyfforddiant a dolenni i ganllawiau. Ni fu unrhyw benderfyniadau i'r CYSAG am ysgolion a oedd eisiau newid CGM / addoli ar y cyd
- yr oedd materion eraill yn cynnwys cyfeiriad at y newyddlen a rhwydwaith CGM, fframwaith arolygu newydd Estyn, ac adnoddau i ategu'r fframwaith ar gyfer AG a gwaith CCYSAGC a deunydd cynhadledd
- yr oedd yr atodiadau'n cynnwys cyfansoddiad CYSAG ('Collette' i gael ei newid i 'Colette'), dyddiadau cyfarfodydd a sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am yr adroddiad, a chadarnhaodd yr aelodau y dylid cadarnhau'r adroddiad fel cofnod cywir o waith y CYSAG, yn amodol ar unrhyw fân newidiadau a drafodwyd yn y cyfarfod. Gan gydnabod bod polisi presennol y Cyngor yn caniatáu i adroddiadau drafft fod yn Saesneg yn unig tan iddynt gael eu cymeradwyo, gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne a ellid gwneud y drafft i fod ar gael yn ddwyieithog yn y dyfodol, gan gofio

bod cyfarfod y CYSAG yn gyfarfod cyhoeddus, a dim ond mân newidiadau fyddai eu hangen ar yr adroddiad drafft. Cadarnhaodd Prif Reolwr Addysg y gellid cyfieithu'r adroddiad blynyddol ar ffurf drafft wrth symud ymlaen.

Ymatebodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i gwestiwn yn ymwneud ag argaeledd athrawon AG arbenigol. Dywedodd y dyrannwyd nifer penodol o athrawon CGM uwchradd i'w recriwtio i amryw sefydliadau hyfforddi athrawon ledled Cymru, a bod y cwota hwnnw wedi ei lenwi ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg a'r ddarpariaeth Saesneg. Fodd bynnag, yr oedd yna broblem ehangach o gofio bod y ffordd yr oedd ysgolion yn ailstrwythuro eu darpariaeth Cyfnod Allweddol 4 yn golygu nad oedd angen cymaint o athrawon AG. Parthed datblygiad proffesiynol ar gyfer darpariaeth gynradd, yr oedd gostyngiad parhaus wedi bod yn nifer yr oriau a ddyrannwyd ar gyfer CGM dros y blynyddoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD –

- (a) *bod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir o waith CYSAG, ac*
- (b) *y dylid gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol drefnu bod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i ddosbarthu i holl ysgolion a cholegau Sir Ddinbych ac i dderbynyddion eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y'u dynodir yn yr adroddiad.*

9 CCYSAGC

• Cynhadledd CCYSAGC – 13 Mehefin 2024

Darparwyd diweddariad byr ar lafar ynglŷn â Chynhadledd CCYSAGC a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2024 – yr oedd yn ddiwrnod o gynhadledd wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Wrecsam a chyfres o seminarau ar-lein. Bu'n ddiwrnod gwych, gyda phrif areithiau gan yr Athro Graham Donaldson, Lynne Neagle AS ac Esgob Llandaf hefyd, ynghyd â chyflwyniadau gan ysgolion. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Gweithredol CCYSAGC ar ddiwedd y gynhadledd.

Yn anffodus, nid oedd Jennie Downes yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y CYSAG, ond darparodd nodiadau byrion ar gyfarfod Gweithredol diwethaf CCYSAGC ar 2 Hydref 2024. Rhannodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y nodiadau hynny gyda'r aelodau, fel y'u crynhoir isod –

- yr oedd yna fanyleb newydd gan CBAC yn ymwneud â'r cymwysterau TGAU newydd a fyddai ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2027, a byddai CCYSAGC yn darparu ymateb i'r meini prawf cymeradwyo drafft erbyn y dyddiad cau, sef 23 Hydref 2024
- trafodaethau yn ymwneud ag Adroddiadau Blynyddol CYSAG mewn perthynas â'u cynnwys yn y dyfodol, a'r hyn oedd ei angen wrth ymateb i dirlun addysgol Cymru
- byddai Rhestr Chwarae Llywodraethwyr yn cael ei rhyddhau'n fuan ar Hwb, a nodwyd bod set gynhwysfawr o restrau chwarae i ategu datblygiad proffesiynol eisoes ar Hwb

- derbyniwyd llawer o adborth cadarnhaol i Gynhadledd CCYSAGC a chroesawyd arferion a oedd yn dod i'r amlwg; croesawyd y seminarau ar-lein ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan CCYSAGC ynghyd â fideos o'r prif siaradwyr
- bu trafodaeth ynglŷn â'r hyn y dylid ei ddatblygu yn dilyn y Gynhadledd a gwneud cefnogaeth ac arweiniad yn fwy hygyrch i ysgolion, yn benodol mewn perthynas â CGM, yn arbennig uwchradd anarbenigol.

PENDERFYNWYD *derbyn y diweddariad ar lafar.*

- **Cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru – 14 Tachwedd 2024**

Cynhelid cyfarfod nesaf CCYSAGC ar-lein am 10.30am ar 14 Tachwedd 2024. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'n bresennol a gofynnodd hefyd am gadarnhad o hyd at dri chynrychiolydd arall i fod yn bresennol. Yn anffodus, dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol ar yr achlysur hwnnw.

PENDERFYNWYD *y byddai'r Cynghorydd Emrys Wynne a Leah Crimes yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC ar 14 Tachwedd 2024, yn ogystal â'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol.*

- **RE Hubs**

Eglurodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mai Jennifer Harding-Richards (CYSAG Abertawe) oedd arweinydd Prosiect RE Hubs yng Nghymru. Yr oedd prosiect RE Hubs yn ymroddedig i gefnogi athrawon ac ymarferwyr AG a CGM ledled Cymru a Lloegr, a gellid cael mynediad at arferion gorau a chefnogaeth ar wefan RE Hubs. Yr oedd rhywfaint o bryder ledled Cymru y byddai dryswch rhwng RE Hubs a Hwb, a byddai'n well gan CCYSAGC pe bai ysgolion yn cyfeirio at Hwb ac yn cysylltu â'r CYSAG ar faterion o'r fath. Fodd bynnag, yr oedd angen llawer o gefnogaeth ar ysgolion ar hyn o bryd, ac yr oeddynt wedi bod yn symud yn naturiol tuag at yr Hub, ac yr oedd RE Today yn darparu rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer ysgolion ledled Cymru wedi ei drefnu gan Brifysgol Bangor a CYSAG Abertawe ar 19 Tachwedd 2024. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol gwneud ysgolion Sir Ddinbych yn ymwybodol o'r cwrs, y gellid ei archebu drwy RE Today.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad llafar.*

10 DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

Mae cyfarfodydd CYSAG Sir Ddinbych yn y dyfodol wedi eu trefnu fel a ganlyn –

- Gwanwyn 2025 – 10am, 14 Chwefror 2025
- Haf 2025 – 10am, 4 Mehefin 2025
- Hydref 2025 – 10am, 2 Hydref 2025

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Chwefror 2025
Eitem ar y Rhaglen:	5	CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG - SARAH GRIFFITHS (PENNAETH CGM, DINAS BRÂN)
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<p>Mae ysgolion yn datblygu eu cwricwlwm yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru 2022. Cael cyflwyniad ar ddarpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Dinas Brân.</p>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
<p>Cael ein hysbysu ynglŷn â sut y cynllunnir a darperir AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Dinas Brân, Llangollen.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Derbyn y cyflwyniad. 		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)		
Dyddiad y Cyfarfod:		14 Chwefror 2025
Eitem ar y Rhaglen:	6	CYFLEOEDD CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM) AC ADDYSG GREFYDDOL GORFODOL I FLYNYDDOEDD 10 AC 11
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Bwnc Statudol i blant 3-16 oed.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
Rhoi cyflwyniad i aelodau ac ysgolion ar y cyfleoedd i ysgolion ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gorfodol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none">▪ Derbyn y cyflwyniad.		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cwricwlwm i Gymru

**Crefydd,
Gwerthoedd a
Moeseq**



[Click for Slide Notes](#)

Curriculum for Wales

**Religion, Values
and Ethics**



Tudalen 20

Uywodraeth Cymru Welsh Government ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES English

Hwb Dewislen Mewngofnodi Cofrestru

Hafan > Cwricwlwm i Gymru

Cwricwlwm i Gymru

Dechrau arni

Cyflwyniad i ganllawiau Curriculum i Gymru

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Cynllunio'ch cwricwlwm

Uywodraeth Cymru Welsh Government ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES Cymraeg

Hwb Menu Log in Sign up

Home > Curriculum for Wales

Curriculum for Wales

Getting started

Introduction to Curriculum for Wales guidance

Summary of legislation

Designing your curriculum

Uywodraeth Cymru Welsh Government ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES English

Hwb Dewislen Mewngofnodi Cofrestru

Hafan > Cwricwlwm i Gymru > Crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Rhan o [Cwricwlwm i Gymru](#)

CYNNWYS

[Crynodeb o'r ddeddfwriaeth](#)

[Deddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021 – cyflwyniad](#)

[Ysgolion a gynhelir ac ysgolion maethol a gynhelir](#)

Crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Nod yr adran hon o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw helpu ysgolion a lleoliadau, yn ogystal ag eraill ym maes addysg sydd â diddordeb, i feithrin dealltwriaeth well o'r gyfraith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru a'r hyn sy'n ofynnol ganddyn nhw.

Uywodraeth Cymru Welsh Government ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES Cymraeg

Hwb Menu Log in Sign up

Home > Curriculum for Wales > Summary of legislation

Curriculum for Wales: summary of legislation

Part of [Curriculum for Wales](#)

CONTENTS

[Legislation summary](#)

[Curriculum and Assessment \(Wales\) Act 2021 – an introduction](#)

[Maintained schools and maintained nursery schools](#)

[Funded non-maintained](#)

Legislation summary

This section of the Curriculum for Wales framework guidance is designed to help schools and settings, as well as others in education with an interest, to better understand what the law is for the Curriculum for Wales and what is required of them.

In addition to setting out the legal basis for guidance, it also provides information relating to legal duties and guidance of a statutory nature that

Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Statws cyfreithiol y canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg

Tudalen 21

Mandadol

Mae'r canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a bwriedir iddyn nhw helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Religion, values and ethics

Legal status of the RVE guidance

Mandatory

The guidance on RVE contained within the Humanities Area is statutory and published under section 71 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (the Act) and designed to assist those responsible under the Act for designing the RVE syllabus as part of the school curriculum.



Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)

Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)
- ~~Yr hawl i dynnu'n ôl ac Crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16~~

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)
- ~~The right to withdraw and post 16 compulsory RE~~

Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)
- ~~Yr hawl i dynnu'n ôl ac Crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16~~
- “Ystyried”
 - Meysydd Llafur Cytunedig
 - Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Tudalen 24

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)
- ~~The right to withdraw and post 16 compulsory RE~~
- “Have Regard”
 - Agreed Syllabi
 - Religion, values and ethics guidance

Prif Agweddau

- Crefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol
 - Erthygl 2 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (E2P1)
- ~~Yr hawl i dynnu'n ôl ac Crefydd, gwerthoedd a moeseg ôl-16~~
- “Ystyried”
 - Meysydd Llafur Cytunedig
 - Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Datblygiad ysbrydol
 - *yn unigolion iach, hyderus sydd â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol*
 - Ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol – Estyn
 - Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Tudalen 25

Main Aspects

- Religious and non-religious philosophical convictions
 - Article 2 Protocol 1 of the European Convention on Human Rights (A2P1)
- ~~The right to withdraw and post 16 compulsory RE~~
- “Have Regard”
 - Agreed Syllabi
 - Religion, values and ethics guidance
- Spiritual development
 - *healthy, confident individuals who have secure values and are establishing their spiritual and ethical beliefs*
 - Spiritual, moral, social and cultural – Estyn
 - Curriculum and Assessment Act (Wales) 2021

Section 59(2) General curriculum requirement

The requirement is that the curriculum is a balanced and broadly based curriculum that -

- (a) promotes the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of the pupils and of society, and*
- (b) prepares the pupils for the opportunities, responsibilities and experiences of later life.*

29 Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 3 i 14 oed

- (1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion nad ydynt eto wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth yn cyrraedd 14 oed ynddi.
- (2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl—
 - (a) sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad (gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd hynny), a
 - (b) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.
- (3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2)—
 - (a) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl, a
 - (b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen 1, ac eithrio pan fo is-adran (4) yn gymwys.
- (4) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r addysgu a dysgu i ddisgyblion mewn dosbarth y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ynddo yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

29 Further implementation requirements for pupils aged 3 to 14


- (1) The adopted curriculum must be implemented in accordance with subsection (2) for pupils who have not yet completed the school year in which the majority of the pupils in their class attain the age of 14.
- (2) The adopted curriculum must be implemented in a way that secures teaching and learning for each pupil that—
 - (a) encompasses the areas of learning and experience (including the mandatory elements within those areas), and
 - (b) develops the mandatory cross-curricular skills.
- (3) The teaching and learning secured under subsection (2)—
 - (a) in respect of the mandatory element of Relationships and Sexuality Education, must be suitable for the pupil's stage of development, and
 - (b) in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, must accord with Part 2 of Schedule 1, except where subsection (4) applies.
- (4) This subsection applies where the teaching and learning is for pupils in a class in which the majority of the pupils are below compulsory school age at the beginning of the school year.

30 Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed

- (1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion sydd wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth 14 oed ynddi.
- (2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd—
 - (a) sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n cwmpasu'r elfennau mandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad, a
 - (b) sy'n sicrhau addysgu a dysgu arall i bob disgybl ym mhob maes dysgu a phrofiad.
- (3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicheir o dan is-adran (2) ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.
- (4) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicheir o dan is-adran (2) gynnwys—
 - (a) addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth a wneir yn y cwricwlwm, i'r graddau y mae'n gymwys i'r disgybl, yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adran 25, a
 - (b) yr addysgu a dysgu a ddewisir gan y disgybl yn rhinwedd adran 24.
- (5) Am eithriad i'r ddyletswydd i sicrhau'r addysgu a dysgu a ddewisir gan y disgybl, gweler adran 31.
- (6) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicheir o dan is-adran (2)—
 - (a) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl, a
 - (b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen 1.

30 Further implementation requirements for pupils aged 14 to 16


- (1) The adopted curriculum must be implemented in accordance with subsection (2) for pupils who have completed the school year in which the majority of the pupils in their class attained the age of 14.
- (2) The adopted curriculum must be implemented in a way that—
 - (a) secures teaching and learning for each pupil that encompasses the mandatory elements within the areas of learning and experience, and
 - (b) secures other teaching and learning for each pupil in each area of learning and experience.
- (3) The teaching and learning secured under subsection (2) must develop the mandatory cross-curricular skills.
- (4) The teaching and learning secured under subsection (2) must include—
 - (a) teaching and learning in respect of any provision made in the curriculum, so far as it applies to the pupil, by virtue of regulations made under section 25, and
 - (b) the teaching and learning chosen by the pupil by virtue of section 24.
- (5) For an exception to the duty to secure the teaching and learning chosen by the pupil, see section 31.
- (6) The teaching and learning secured under subsection (2)—
 - (a) in respect of the mandatory element of Relationships and Sexuality Education, must be suitable for the pupil's stage of development, and
 - (b) in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, must accord with Part 2 of Schedule 1.



MAES DYSGU A PHROFIAD

Y Dyniaethau

Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu o ran y pedwar diben.




Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
3. Egyddorion cynnydd
4. Disgrifiadau dysgu
5. Cynllunio eich cwricwlwm

AREA OF LEARNING AND EXPERIENCE

Humanities

Guidance to help schools and settings develop their own curriculum, enabling learners to develop towards the four purposes.



Contents

1. Introduction
2. Statements of what matters
3. Principles of progression
4. Descriptions of learning
5. Designing your curriculum

5. Cynllunio eich cwricwlwm

CYNNWYS

- Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyffannol
- Ystyriaethau penodol ar gyfer Maes hwn
- Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill
- Themau trawsgwricwlaidd
- Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cyflwyniad

1 Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau (Maes). Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r an themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd.

Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru.

Diben y canllawiau hyn ar grefydd, gwerthoedd a moeseg

Cafodd y canllawiau hyn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hystrifennu gan ymarferwyr ac arbenigwyr addysg grefyddol er mwyn rhoi cymorth

5. Designing your curriculum

CONTENTS

- Cross-curricular skills and integral skills
- Specific considerations for this Area
- Key links with other Areas
- Cross-cutting themes
- Religion, values and ethics guidance

Religion, values and ethics guidance

Introduction

1 Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16. RVE forms part of the Humanities Area. This Area encompasses geography; history; religion; values and ethics; business studies. These disciplines share many common themes, concepts and transferable skills, whilst having their own discrete body of knowledge and skills.

There is no parental right to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales.

The purpose of this RVE guidance

This RVE guidance has been written by practitioners and religious education experts to provide additional support on how RVE can be taught within the Humanities Area. It emphasises the integral nature of RVE within this Area and

Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

- themâu trawsbynciol
- sgiliau trawsgwricwlaidd
- sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Tudalen
29

- Datblygiad ysbrydol
- Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg



Designing your curriculum for Religion, Values and Ethics

- cross-cutting themes
- cross-curricular skills
- skills integral to the four purposes
- Religion, Values and Ethics and the statements of what matters

- Spiritual development
- Religion, Values and Ethics Concepts
- The Religion, Values and Ethics lens

Datblygiad ysbrydol

- Hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill
 - *meithrin ymdeimlad o'u natur unigryw a'u gwerth*
 - *meithrin cydberthnasau da*
- Cysylltu â'r byd ehangach a'r byd naturiol datblygu gwerthfawrogiad o'r ffaith eu bod yn perthyn i'w hardal leol, i Gymru ac i'r byd ehangach
- Creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin
 - gofyn, ystyried a myfyrio ar y cwestiynau eithaf (y cwestiynau 'mawr' ynghylch bywyd)
 - darganfod ystyr a phwrpas yn eu bywydau eu hunain
- Archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas
 - profi'r hyn sydd y tu hwnt i'r cyffredin

Spiritual development

- Awareness of self in relation to others
 - *develop a sense of their uniqueness and value*
 - *form good relationships*
 - *'to live with disappointment'*
- Connections to the wider and the natural world
 - develop an appreciation of belonging in their locality, Wales and the wider world
- Creativity and going beyond the everyday
 - develop creativity and use their imagination
 - experience awe and wonder or be amazed by things
- Exploration of ultimate questions and contemplation of meaning and purpose
 - experience that which is beyond the ordinary

Lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

- **Chwilio am ystyr a phwrpas**

Sut mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach bywyd er mwyn deall y cyflwr dynol.

- **Y byd naturiol a phethau byw**

Sut a pham mae pobl yn dangos gofal a chyfrifoldeb am y byd ac yn cael eu rhyfeddu gan fyd natur.

- **Hunaniaeth a pherthyn**

Beth sy'n ein gwneud ni yn ni, fel pobl, cymunedau a dinasyddion yn byw mewn byd amrywiol.

- **Awdurdod a dylanwad**

Sut a pham mae gwahanol fathau o awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl.

- **Cydberthnasau a chyfrifoldeb**

Sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd, a pham mae'n bwysig meithrin cydberthnasau iach.

- **Gwerthoedd a moeseg**

Sut a pham mae pobl yn gwneud dewisiadau moesol a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu gweithredoedd.

- **Taith bywyd**

Beth mae pobl yn ei brofi fel rhan o daith bywyd, a'r ffordd y caiff y profiadau eu cydnabod.

The RVE lens

- **Search for meaning and purpose**

How people respond to the deeper questions of life in order to understand the human condition.

- **The natural world and living things**

How and why people show concern and responsibility for the world and experience awe and wonder in nature.

- **Identity and belonging**

What makes us who we are as people, communities and citizens living in a diverse world.

- **Authority and influence**

How and why different types of authority influence people's lives.

- **Relationships and responsibility**


How people live together and why developing healthy relationships is important.


- **Values and ethics**


How and why people make moral choices and how this influences their actions.

- **The journey of life**

What people experience as part of the journey of life and how these experiences are acknowledged.








Addysg grefyddol

Canllawiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed



Astudiaethau achos yn enghreifftio ystod o ddulliau cyflwyno 16

Addysg grefyddol statudol trwy ddewisiadau arholiad	17
Gwersi addysg grefyddol wedi'u hamserlennu	22
Wythnos drawsgwricwlaidd	28
Rhaglen gyfoethogi drawsgwricwlaidd	31
Rhaglen gyfoethogi'r cwricwlwm ehangach	36
Gwersi tiwtorial y Craidd Dysgu wedi'u hamserlennu	38
Cynhadledd undydd flynyddol	41
Cynhadledd flynyddol i gefnogi dewisiadau arholiad	47
Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	49
Sgiliau Allweddol	55
Dyfarniad ASDAN (Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynllun Dyfarnu)	61
Encilion a chynadleddau	64
Gwaith elusennol ac ymweliadau	66
Defnyddio eclips y BBC <i>Addysg Grefyddol: Addysg Ryfeddol</i>	69
Siart astudiaethau achos enghreifftiol	72



Religious education

Guidance for 14 to 19-year-olds



Case studies exemplifying a range of delivery models 16

Statutory religious education through examination options	17
Timetabled religious education lessons	22
Cross-curricular week	28
Cross-curriculum enrichment programme	31
Wider curriculum enrichment programme	36
Learning Core timetabled tutorial lessons	38
Annual day conference	41
Annual conference to support examination options	47
The Welsh Baccalaureate Qualification	49
Key Skills	55
ASDAN award (Award Scheme Development and Accreditation Network)	61
Retreats and conferences	64
Charity work and visits	66
Using BBC eclips <i>Religious Education: Revitalising Education</i>	69
Exemplar case studies chart	72

Agored Cymru Dyfarniad Lefel 2 mewn Archwilio Bydolygon

Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC: [C00/4448/0](#)

Credydau ei hangen: **3**

Cyfanswm amser y cymhwyster (TQT): **30 awr**

Isafswm y credydau ar lefel y cymhwyster neu ar lefel uwch: **3**

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei ystyried yn addas i ddysgwyr o dan 16 oed.

Ffi Safonol ar gyfer y Cymhwyster: **£10.50**

Dyddiad Adolygu: **31/10/2026**

Dyddiad Dechrau Gweithredol: **01/09/2021**

Am brothwy a phwyntiau perfformiad: [Cliciwch yma](#)

Cymhwyster hwn yn rhan o gyfres lle dyfernir pob cymhwyster trwy bori ar hap. Bydd dysgwyr yn ennill y cymhwyster mwyaf o fewn y gyfres y maent wedi bodloni'r rheolau cyfuno.



Agored Cymru Level 2 Award in Exploring Worldviews

QW Approval/Designation No: [C00/4448/0](#)

Total credits required: **3**

Total qualification time (TQT): **30 hours**

Minimum credits at or above qualification level: **3**

This qualification is classified as suitable for pre-16 learners.

Standard Qualification Fee: **£10.50**

Review date: **31/10/2026**

Operational Start Date: **01/09/2021**

For performance points and threshold: [click here](#)

This qualification is part of a suite where each qualification is awarded serendipitously. Learners will be awarded the largest qualification within the suite for which they have met the rules of combination.

Agored Cymru Dyfarniad Estynedig Lefel 2 mewn Archwilio Bydolygon

Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC: [C00/4448/1](#)

Credydau ei hangen: **8**

Cyfanswm amser y cymhwyster (TQT): **80 awr**

Isafswm y credydau ar lefel y cymhwyster neu ar lefel uwch: **5**

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei ystyried yn addas i ddysgwyr o dan 16 oed.

Agored Cymru Level 2 Extended Award in Exploring Worldviews

QW Approval/Designation No: [C00/4448/1](#)

Total credits required: **8**

Total qualification time (TQT): **80 hours**

Minimum credits at or above qualification level: **5**

